Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

# TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLI 142

**Amseru:**

**Teitl: Cymeradwyo ariannu datblygu Clwb Ieuenctid Bwlch**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid**

**Crynodeb Gweithredol:**
Yn dilyn cyfarfod gyda Gwasanaethau Ieuenctid Cyngor Sir Gaerfyrddin a'r Cynghorydd Roberts o Lanelli er mwyn trafod datblygu clwb ieuenctid yng Nghanolfan Ieuenctid Bwlch, penderfynodd CHTh gyfrannu £10,000 o'r cronfeydd wrth gefn ar gyfer y Cynllun Ailhyfforddi Gyrwyr er mwyn cynorthwyo â hyn. Dros y blynyddoedd, mae darpariaeth ar gyfer pobl ifainc wedi lleihau'n raddol yn Llanelli, ac ar hyn o bryd, nid oes clwb ieuenctid ar gael ar gyfer pobl ifainc yn wardiau Glan-y-môr a Thyisha, a'r ardaloedd cyfagos. Mae Cyngor Sir Gaerfyrddin yn cynnal eu gwasanaethau ieuenctid o Ganolfan Ieuenctid Bwlch ar hyn o bryd, ac mae posibilrwydd ar gyfer sefydlu clwb hwyrol yn yr adeilad hwn, a fydd yn cael ei redeg gan weithwyr ieuenctid hyfforddedig Cyngor Sir Gaerfyrddin. Y bwriad yw cwblhau gwaith estyn allan i gychwyn er mwyn canfod beth mae pobl ifainc o fewn y gymuned eisiau, ac yna darparu clwb ieuenctid gyda'r nos gyda chymorth y tîm plismona bro lleol, gan eu galluogi i ymgysylltu'n gadarnhaol â phobl ifainc Llanelli.

**Argymhelliad:**
Cymeradwyo cyfrannu o £10,000 o'r cronfeydd wrth gefn ar gyfer y Cynllun Ailhyfforddi Gyrwyr tuag at sefydlu clwb ieuenctid yng Nghanolfan Ieuenctid Bwlch.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad:** 25. 9. 2019